Cyngor Abertawe
Swansea Council

# Cyngor

Rydych dan wŷs trwy hyn i ddod i gyfarfod **Cyngor Dinas a Sir** i'w gynnal yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe ar Dydd Iau, 21 Mehefin 2018 am 5.00 pm.

Cynigir trafod y materion canlynol:


| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb.** | |
| 2. | **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**<br>www.abertawe.gov.uk/DatgeliadauBuddiannau | |
| 3. | **Cofnodion.**<br>Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) blaenorol fel cofnod cywir | **1 - 9** |
| 4. | **Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor - Dim.** | |
| 5. | **Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.** | |
| 6. | **Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.** | |
| 7. | **Cwestiynau gan y Cyhoedd.**<br>Rhaid i'r cwestiynau ymwneud â materion ar ran agored agenda'r cyfarfod, ac ymdrinnir â hwy o fewn 10 munud. | |
| 8. | **Cyflwyniad Cyhoeddus - Dim.** | |
| 9. | **Diwygiadau I Adnewyddu Tai'r Sector Preifat Ac Addasiadau I'r Anabl: Polisi I Ddarparu Cymorth 2017-2022: Troi Tai'n Gartrefi A'r Cynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi Cenedlaethol.** | **10 - 16** |
| 10. | **Strategaeth diogelwch cymunedol Abertawe mwy diogel.** | **17 - 56** |
| 11. | **Lwfansau a Gwariant Arian Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig 2017-2018.** | **57 - 65** |
| 12. | **Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyrdd mewn perthynas â Diwygio Llywodraeth Leol: 'Cryfhau Llywodraeth Leol - Cyflawni dros ein Pobl'** | **66 - 145** |
| 13. | **Uwch-strwythur Rheoli.** | **146 - 231** |
| 14. | **Diwygiadau i gyfansoddiad y Cyngor.** | **232 - 235** |

15. **Aelodaeth Pwyllgorau.** **236 - 237**

16. **Cwestiynau gan y Cynghorwyr.** **238 - 250**

17. **Hysbysiad o gynnig - Cynghorwyr P M Black, C A Holley, A M Day, L G Thomas, C L Philpott, J W Jones & M H Jones.**

Mae'r cyngor yn nodi'r refferendwm ymgynghorol a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 1975 lle cadarnhaodd 67% o'r rhai a bleidleisiodd ein haelodaeth o'r Gymuned Economaidd Ewropeaidd ar sail telerau aelodaeth a oedd wedi'u nodi'n glir.

Mae'r cyngor yn nodi'r refferendwm ymgynghorol ychwanegol a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2016 lle penderfynodd 52% o'r rhai a bleidleisiodd na ddylai'r Deyrnas Unedig fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd mwyach.

Yn ychwanegol, mae'r cyngor yn nodi na chyflwynwyd mater ein haelodaeth barhaus o'r farchnad sengl na'r telerau ar gyfer gadael yr UE i'r etholaeth i'w penderfynu fel rhan o'r refferendwm yn 2016.

Mae'r cyngor hefyd yn nodi'r anawsterau dilynol wrth drafod telerau ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ynghylch y ffin Wyddelig a dyfodol Cytundeb Dydd Gwener y Groglith, dyfodol Gibraltar, rhagfynegiadau y bydd gwerth ychwanegol gros yng Nghymru'n gostwng £1.1 filiwn oherwydd Brexit caled, effaith colli grantiau ar Addysg Uwch ac ymchwil wyddonol, y posibilrwydd o golli swyddi gweithgynhyrchu ac yn y sector ariannol i Ewrop gyfandirol a'r effaith ar awyrennau a meddyginiaeth niwclear o ganlyniad i adael cytundebau rhyngwladol.

Hefyd mae'r cyngor yn nodi effaith Brexit ar lafur wedi'i fewnforio, sydd, ar y cyd â'r ffaith fod y llywodraeth gyfredol yn gwahardd fisâu, eisoes wedi cyfrannu at ddiffyg staff y GIG mewn meysydd allweddol a thanseilio amaethyddiaeth a diwydiannau eraill sy'n cynnig llawer o swyddi.

Mae'r cyngor hefyd yn mynegi pryder am yr ansicrwydd sy'n wynebu dinasyddion Ewropeaidd sy'n byw ac yn gweithio yn y DU ynghyd â dinasyddion y DU sy'n byw ac yn gweithio yn Ewrop.

Mae'r cyngor yn nodi'r diffyg cynnydd sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth y DU o ran sicrhau cytundebau masnachol eraill y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd ac mae'n bryderus, unwaith y bydd y DU wedi gadael yr UE, y byddwn ni'n cael ein hynysu, mewn sefyllfa wan o ran trafod telerau ac yn dibynnu'n llwyr ar bartneriaid masnachu mwy megis yr UDA a fydd yn awyddus i osod telerau annerbyniol ar unrhyw fargeinion y byddwn yn eu taro â nhw.

Mae'r cyngor yn nodi ei bod hi'n bosib cynyddu masnach gyda gwledydd nad ydynt yn rhan o'r UE wrth barhau i fod yn aelod o'r farchnad sengl ac mae cynnydd o 27% bob blwyddyn mewn allforion caws o'r DU i Asia yn dystiolaeth o hyn.

Mae'r cyngor yn credu, o ystyried yr ansicrwydd y sonnir amdano uchod, canlyniadau Brexit caled fel y'i hyrwyddir gan Lywodraeth y DU ar hyn o bryd ar gyfer ein heconomi a'n bywydau unigol a chanlyniadau Brexit sydd wedi dod i'r amlwg ers mis Mehefin 2016, dylai fod gan bleidleiswyr y gair olaf

mewn refferendwm ar unrhyw delerau y cytunir arnynt rhwng Llywodraeth y DU a'r UE, gyda chyfle i aros yn yr UE os byddant yn ystyried mai dyna'r dewis gorau i'r DU.

Mae'r cyngor wedi penderfynu y dylai'r Arweinydd ysgrifennu at Aelodau Seneddol lleol, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Prif Weinidog gan nodi'r achos hwn o blaid refferendwm terfynol ar y cytundeb Brexit.

**Huw Evans**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**Neuadd y Ddinas,**
**Abertawe.**

**Dydd Mawrth, 12 Mehefin 2018**

**I: Bob Aelod o’r Cyngor**